

## **Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau...**

### **Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Diolch am y cyfle i ymateb i Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn grŵp pwyso sydd wedi brwydro dros hawliau iaith pobl Cymru ers 50 mlynedd. Rydym wedi ceisio ymateb yn ôl y cwestiynau a ddarparwyd gyda'r ddogfen ymgynghori, ond mae swmp ein hymateb o dan gwestiwn 8.

#### **1. Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau gwasanaethau Cymraeg?**

Does dim dwywaith bod angen cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn gyffredinol yng Nghymru, ac mae'r Gymdeithas wedi ymgyrchu ers blynyddoedd i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ymhob sector. Yn sicr mae iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol yn feysydd sydd, ar y cyfan, wedi esgeuloso'u dyletswydd tuag at siaradwyr Cymraeg, ac mae'r dogfennau ymgynghori eu hunain yn llawn tystiolaeth o hynny. Mae tystiolaeth ein haelodau yn awgrymu bod y sefyllfa yn gwbl annigonol, ac mai tameidiog os o gwbl yw'r ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o Gymru.

Fel mae'r Llywodraeth ei hun yn ei gydnabod, mae pobl yn amharod i gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn y meysydd hyn yn arbennig, a hynny oherwydd bod pobl sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn yn aml yn fregus ac yn dibynnu ar y darparwr gwasanaeth mewn rhyw ffordd. Mae'n hanfodol felly bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn cael ei gynnis fel mater o drefn i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hyn. Yn hynny o beth mae swyddogaeth bwysig i Gomisiynydd y Gymraeg yn y maes hwn yn benodol, i fod yn rhagweithiol gan gynnal ymchwiliadau ac ymholiadau o dan y Mesur Iaith newydd, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau derbyniol ar gael i bobl sydd eu hangen.

#### **2. Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros gryfhau gwasanaethau Cymraeg?**

Croesawn y gydnabyddiaeth mai mater o angen yn hytrach na dim ond dewis yw darparu gwasanaethau Cymraeg i lawer o bobl yng nghyd-destun iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Cytunwn hefyd â'r pwyslais sydd ar iaith fel elfen allweddol o ofal, a'r gydnabyddiaeth bod iaith yn angen gofal. Fodd bynnag, hoffem weld y Llywodraeth yn gosod hynny yng nghyd-destun hawliau cyffredinol pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg a chael gwasanaethau Cymraeg, gan gydnabod bod gwasanaethau Cymraeg yn y maes hwn yn hawl sylfaenol i bobl Cymru, yn ogystal ag yn angen clinigol yn aml fel y nodir. Croesawn rai cyfeiriadau at 'hawl' yn y ddogfen yn hynny o beth, yn enwedig o ran y safonau a ddaw o dan Fesur y Gymraeg 2011, ond teimlwn fod angen i'r Strategaeth ddatgan yn uniongyrchol farn y Llywodraeth bod hawl gan bobl Cymru i wasanaethau iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o hawliau ieithyddol sylfaenol pobl Cymru.

#### **3. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai sefydliadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na disgwyl i ddefnyddwyr a'u teuluoedd ofyn am wasanaethau yn Gymraeg?**

Cytunwn nad oes modd rhoi cyfrifoldeb ar ddefnyddwyr a'u teuluoedd i ofyn am wasanaethau Cymraeg, ac mae dogfennau'r ymgynghoriad yn dystiolaeth mwy na digonol o hynny. Mae'n rhaid i sefydliadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg a'i gwneud yn amlwg bod y gwasanaeth hwnnw ar gael. Fodd bynnag,

mae'n hanfodol hefyd bod Llywodraeth Cymru yn cymryd ei chyfrifoldeb hithau am sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig ym meysydd iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol ac yn rhoi arweiniad blaengar a digyfaddawd i'r cyrff perthnasol. Mae bodolaeth y Strategaeth yn dangos awydd y Llywodraeth i weithredu yn y maes hwn, a rhaid canmol hynny, ond mae angen camau gweithredu llawer cadarnach er mwyn unioni'r sefyllfa bresennol, sy'n gwbl annigonol fel mae'r Strategaeth ei hun yn ei nodi.

#### **4. Ydych chi'n cytuno y dylai'r pwyslais fod ar gryfhau gwasanaethau Cymraeg ymysg gwasanaethau rheng-flaen, er mwyn gwella ansawdd gofal a phrofiad defnyddwyr?**

Yn sicr mae pwyslais y Strategaeth ar wasanaethau rheng flaen yn ddigon naturiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig deall bod popeth yn gyd-gysylltiedig. Bydd sicrhau gwasanaethau rheng flaen digonol yn ddibynnol ar statws a defnydd y Gymraeg fel iaith yn y gwasanaethau iechyd, gofal a chymdeithasol yn eu cyfranwydd. Mae'r sefyllfa bresennol, lle mae holl weithredu mewnol y gwasanaethau hyn yn digwydd yn Saesneg fel mater o drefn, yn golygu mai Saesneg yw'r iaith 'arferol', a bod unrhyw ymgais i ddefnyddio'r Gymraeg yn mynd i fod yn ymdrech ac yn eithriad o'r drefn bresennol. Problem gysylltiedig, er enghraifft, yw bod yr holl systemau technoleg gwybodaeth yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd ac mai dim ond yn Saesneg y caiff gwybodaeth am gleifion/cleientiaid ei chofnodi. Mae angen datrys materion fel hyn yn ogystal â gwasanaethau amlwg rheng flaen, oherwydd fel arall mae'r holl drefn fewnol yn milwrio yn erbyn defnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth mewn gwirionedd, felly, mae angen chwyldroi'r holl drefn a buddsoddi ymdrech sylweddol er mwyn symud, gam wrth gam, tuag at droi'r gwasanaethau iechyd, gofal a chymdeithasol yn rhai a fydd yn gweithredu drwyddynt yn ddwyieithog a drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **5. Ydych chi'n cytuno y bydd yr amcanion a amlinellir yn adran 7 o'r Fframwaith Strategol yn arwain at well gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd?**

Ar y cyfan rydym yn cytuno â'r amcanion strategol a nodir yn adran 7. Fodd bynnag, er mwyn iddynt arwain at well gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd, mae angen mwy o gamau gweithredu pendant yn deillio o'r amcanion. Yn y cynlluniau gweithredu y bydd y Strategaeth hon yn cael ei gwireddu, ac felly dyna lle mae angen canolbwyntio.

O ran y penawdau yn adran 7 yn benodol, sef yr amcanion, credwn fod angen gwneud amcan 7.1 yn fwy eglur o ran geiriad. Mae angen addasu amcan 7.6 yn ogystal - fel y mae, nid yw'n amcan, ac felly mae angen ei wneud yn amcan eglur.

#### **6. Ydych chi'n cytuno gyda'r camau a amlinellir yn y Cynlluniau Gweithredu?**

Mae cynllun neu gynlluniau gweithredu effeithiol yn gwbl greiddiol i lwyddiant strategaeth fel hon. Yn hynny o beth, er nad ydym yn *anghytuno* â llawer o gynnwys y cynlluniau gweithredu ynddo'i hunan, teimlwn fod y cynlluniau gweithredu yn syrthio'n brin o'r hyn sydd ei angen er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth. Rydym yn gryf o'r farn felly bod angen addasu'r cynlluniau gweithredu fel eu bod yn cyfateb ag uchelgais y Llywodraeth yn y maes hwn, ac er mwyn sicrhau na fydd y Strategaeth yn methu.

#### **7. A ddylid cynnwys unrhyw beth arall yn y Cynlluniau Gweithredu?**

Yn ein barn ni, mae angen ailedrych o ddifrif ar y cynlluniau gweithredu fel y nodwyd, gan osod

camau gweithredu uchelgeisiol, mesuradwy a fydd yn gwireddu amcanion y Llywodraeth yn hyn o beth. Ni allwn wneud cyfiawnder â'r dasg honno yma, ond gobeithiwn fod y sylwadau yr ydym wedi eu gwneud yn arwydd o'r newid sydd ei angen i'r cynlluniau gweithredu er mwyn cryfhau'r Strategaeth a sicrhau ei llwyddiant. Yn hynny o beth nodwn isod ac o dan gwestiwn 8 rai materion penodol i'w hystyried ymhellach:

### Gweithlu/capaciti

Mae capasiti'r gwasanaethau perthnasol o ran adnoddau dynol i ddarparu yn Gymraeg yn gwbl sylfaenol i'r holl Strategaeth. Er bod y Strategaeth yn trafod yr anawsterau presennol, mae bylchau amlwg o ran cynllunio newid. Mae angen i'r cynlluniau gweithredu fynd i'r afael â diffyg capasiti o ddifrif, gan flaenoriaethu hynny o'r cychwyn cyntaf a rhoi targedau eglur a mesuradwy a fydd yn dangos cynnydd dros gyfnod o amser. Sgiliau iethyddol staff y gwasanaethau fydd sylfaen y Strategaeth hon, ac felly os na fuddsoddir yn helaeth yn hynny o beth, ni fydd modd gweithredu'r Strategaeth.

Polisi recriwtio blaengar sydd ei angen i sicrhau gwasanaeth cyflawn Cymraeg yn y gwasanaeth iechyd, a chredwn y dylai'r gwasanaeth iechyd edrych ar Heddlu Gogledd Cymru fel enghraifft o'r math o bolisi sydd angen i sicrhau gwelliant. Os yw'r Gymraeg yn rhan hanfodol o bob elfen o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, bydd rhaid i'r Gymraeg fod yn sgil addysgol hanfodol i bob un o'r gweithwyr ynddi. Mae hynny'n golygu bod angen cynnwys pwyntiau yn y cynllun gweithredu a fydd yn ei gwneud yn hanfodol i bob aelod o staff fedru rhywfaint o Gymraeg, gan adeiladu ar hynny dros y blynyddoedd fel bod staff yn dod yn gynyddol rugl er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn. Mae nifer gynyddol o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu polisïau o'r fath, ac er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth, mae'n hanfodol bod hynny'n digwydd hefyd ym maes iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol.

### Comisiynu gwasanaethau

Mae'r sector breifat i'w gweld yn gynyddol ym maes gofal, ac un o'r problemau gyda hynny yw diffyg ewyllys a gallu cwmnïau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae angen i'r Strategaeth fynd i'r afael o ddifrif â hyn gan fod llawer o gartrefi yn cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat ar ran awdurdodau. Mae tystiolaeth ein haelodau yn awgrymu bod trefniadau presennol o dan gyfundrefn cynlluniau iaith yn hollol annigonol yn hyn o beth, ac mae'r ddogfen ei hun yn cydnabod nad yw'r drefn bresennol yn gweithio. Mae angen felly am drefniadau mwy systematig a chadarn sy'n gorfodi cwmnïau preifat i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd neu wynebu cosbau ariannol sylweddol.

### Gofal sy'n canolbwyntio ar y person (pwynt 1.3)

Tynnir sylw at bwynt 1.3 yng nghynllun gweithredu'r gwasanaeth iechyd fel enghraifft o'r hyn a olygwn wrth sôn am wendid y cynlluniau gweithredu. Ym mhwynt 1.3, credwn fod lle i gryfhau geiriad a bwriad, ac addasu'r amserlen. Mae'r trydydd targed, er enghraifft, yn sôn am gael cyngor i'r Tasglu Gweinidogol, ond nid yw hyn i ddigwydd tan drydedd flwyddyn y Strategaeth. Rydym o'r farn y dylai casglu gwybodaeth fel hyn ddod yn gynnar yn ystod oes y Strategaeth, er mwyn galluogi'r cyrff perthnasol i weithio ar sail hynny. Ni welwn fod rhesymeg dros oedi o'r fath.

Croesawn y pedwerydd targed o dan 1.3 ("AIGCP i gynnwys darpariaeth Gymraeg yn y

Fframwaith Ansawdd Blynyddol a'r Byrddau Iechyd i adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn eu hardal, yn rhan o'u hasesiad Fframwaith Canlyniadau Ansawdd") os yw'n golygu y bydd darpariaeth Gymraeg gwasanaethau yn ystyriaeth wrth ariannu gofal sylfaenol. Credwn fod hyn yn ffordd ymlaen gan mai clymu gwasanaeth derbynol yn Gymraeg gydag ariannu'r gwasanaethau hynny yw'r unig ffordd mewn gwirionedd o sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn Gymraeg.

Mae'r pumed targed o dan 1.3 ("AIGCP i gynnwys sgiliau Cymraeg proffesiynolion gofal sylfaenol yn yr Adroddiad Gofal Sylfaenol Blynyddol") yn dderbynol ynddo'i hun, ond mae fel pe bai cam arall ar goll, sef yr hyn fydd yn deillio o hynny. Beth fydd yn digwydd i'r data hwnnw er mwyn gwella gwasanaethau?

Mae'r chweched targed o dan 1.3 ("AIGCP, cyrff proffesiynol ac undebau i ystyried sut y gellid cynnwys gwasanaethau Cymraeg yn y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) a'r Contract Fferylliaeth (mae yn y Contract Deintyddol eisoes)") unwaith eto yn darged ar gyfer y drydedd flwyddyn. Gan mai Strategaeth tair blynedd yw hon, mae'n destun pryder i ni bod materion o bwys yn cael eu gadael tan y drydedd flwyddyn. Beth fydd yn digwydd y cyfamser? Rydym o'r farn mai ym mlynnyddoedd cyntaf y Strategaeth y dylai'r prif gamau gweithredu fod, fel bod newid i'w weld erbyn diwedd oes y Strategaeth. Yn ogystal, esbonnir yn y targed bod gwasanaethau Cymraeg wedi eu nodi yn y contract deintyddol eisoes. Nid yw profiad ein haelodau yn awgrymu bod gwasanaethau deintyddol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Beth sydd wedi ei gyflawni drwy'r ychwanegiad hwn i'r contract deintyddol? A yw cynnydd yn cael ei fonitro? Sut y caiff pobl eu dwyn i gyfrif am fethiant yn hyn o beth? Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod gwasanaethau Cymraeg yn rhan o gontractau o'r fath, ond rhaid hefyd sicrhau bod newid yn digwydd ar lefel ymarferol.

### Creu gwasanaethau dwyieithog cyflawn

Mae'r ail darged o dan bwynt 2.3 yng nghynllun gweithredu'r gwasanaeth iechyd yn nodi'r canlynol:

*"Rheolwyr gwasanaeth i ystyried modelau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn oî capasiti, sgiliau ieithyddol, parodrwydd a hyder staff i ddefnyddio'r iaith. (Wrth gynllunio modelau gwasanaeth, nid oes raid i'r modelau Cymraeg a Saesneg adlewyrchu ei gilydd)."*

Ein pryder gyda'r targed hwn yw'r awgrym nad bwriad y Strategaeth wedi'r cwbl yw creu sefyllfa lle mae gwasanaeth dwyieithog cyflawn yn cael ei gynnig fel mater o drefn, ond yn hytrach bod y *status quo* Saesneg yn cael ei addasu er mwyn darparu rhyw fath o wasanaeth Cymraeg, nad yw o reidrwydd o'r un safon â'r gwasanaeth Saesneg sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn nodweddiadol o agwedd llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru at y Gymraeg. Credwn fod rhaid i wasanaethau iechyd, gofal a chymdeithasol gael eu creu mewn ffordd sy'n golygu eu bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar yr un telerau ac yn ddiraferth. Mae angen dechrau o'r newydd gan gynllunio gwasanaethau gyda dwy iaith Cymru mewn golwg.

### Pwyntiau cyffredinol ar dynhau'r cynlluniau gweithredu

Yn gyffredinol, credwn fod lle i dynhau llawer ar eiriad y cynlluniau gweithredu. Mae camau gweithredu sy'n sôn am "ystyried" rhywbeth neu "gymryd camau i" wneud rhywbeth (e.e. pwynt

2.2) yn amwys ac yn debygol o ganiatáu diffyg gweithredu gan y cyrff perthnasol. Mae angen newid y rhain fel eu bod yn fwy tynn yn gyffredinol felly.

Credwn hefyd fel mater o weinyddu'r cynlluniau gweithredu fod angen gwahanu pob pwynt unigol ynddynt er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pob cam, gan gynnwys rhifo pob un yn unigol er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'r camau hynny. Gwelir yn nharged 3 o dan bwynt 3.1, er enghraifft, bod dau gam gweithredu gwahanol gan ddau gorff gwahanol wedi eu rhoi mewn un blwch. Er mai manion yw'r rhain ar un olwg, diffygion fel hyn sy'n gallu arwain at amryfusedd a fydd yn golygu bod camau gweithredu yn mynd drwy'r rhwyd, ac arwain at fethiant strategaethau. Mae angen creu cynlluniau gweithredu cwbl dynn nad oes modd iddynt gael eu camddehongli a'u camweithredu.

## **8. A oes unrhyw sylwadau perthnasol eraill yr hoffech eu cyflwyno?**

### Y sefyllfa bresennol a'r newid sydd ei angen

Mae'r Strategaeth yn cynnig dadansoddiad teg o'r sefyllfa bresennol, sefyllfa sy'n gwbl annigonol, ac yn cyflwyno tystiolaeth helaeth dros yr angen am newidiadau sylfaenol yn y maes. Mae'r Strategaeth fwy neu lai yn gydnabyddiaeth gan y Llywodraeth o fethiant strategol o ran y Gymraeg mewn iechyd a gofal ers 1999, ac mae'n amlygu bylchau dybryd. Mae paragraff 2.21, er enghraifft, yn syml ond yn ddadlennol tu hwnt:

*“Yn gyffredinol Saesneg yw'r norm wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a dim ond drwy hap a damwain y mae defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain”*

Rhaid canmol gonestrwydd y Llywodraeth yn hyn o beth, a does dim dwywaith na fydd darllen y Strategaeth yn fuddiol i rai nad ydynt yn deall yr anawsterau sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg mewn iechyd, gofal a gwasanaethau, yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau hynny o ran unioni'r sefyllfa. Fel strategaeth gan y Llywodraeth, mae hynny ynddo'i hun yn rhywbeth i'w groesawu, ac mae dadansoddiad o'r gwendidau presennol yn fan cychwyn da er mwyn creu newid. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod yr hyn sy'n dilyn hynny yn asesiad realistig o faint y dasg o fynd i'r afael â'r gwendidau, a bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i'r gwaith. Yr unig gasgliad y gellir dod iddo ar sail tystiolaeth y dogfennau ymgynghori eu hunain yw bod angen gweithredu radical iawn er mwyn dod â gwasanaethau iechyd a gofal i sefyllfa dderbyniol o safbwynt y Gymraeg, ac o ystyried y ffaith bod gennym ein Llywodraeth a'n gwasanaeth iechyd ein hunain ers dros ddeuddeg mlynedd bellach, mae'n hen bryd mynd i'r afael â'r anghyfiawnder hanesyddol hwn.

### Prif ffrydio

Er mwyn i siaradwyr Cymraeg gael chwarae teg yn y meysydd hyn, mae angen i ddarparwyr gwasanaeth fod yn gwbl eglur ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt. Mae diffyg prif ffrydio ar hyn o bryd yn cael ei nodi yn y Strategaeth:

*5.2.1 Er bod enghreifftiau o ddulliau systematig o brif-ffrydio gwasanaethau Cymraeg fel rhan o gynllunio a darparu gwasanaethau, nid yw hyn yn norm ar draws Cymru. Ceir hefyd lefelau gwahanol o ddealltwriaeth ymysg y gweithlu ynglŷn â phwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel un o hanfodion gofal. Arwain hyn at ddiffyg cysondeb yn agweddau'r gweithlu tuag at y Gymraeg, ynghyd ag anghysondeb yn narpriaeth gwasanaethau.*

Mae hyn yn amlygu'r angen am arweiniad oddi uchod. Daw hyn â ni yn ôl at gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, sef yr unig gorff a all gynnig arweiniad polisi cadarn Cymru gyfan ar y materion hyn, fel nad oes cwestiwn o ddiffyg dealltwriaeth am bwysigrwydd y Gymraeg ym maes iechyd a gofal.

Teg codi'r pwynt hefyd bod y Strategaeth hon ynddi'i hun, fel y mae, y tu allan i brif ffrwd y meysydd y mae'n gobeithio'u newid. Cytunwn fod angen am strategaeth benodol ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal, a hynny oherwydd y sefyllfa ddifrifol bresennol, ond er mwyn iddi lwyddo mewn gwirionedd mae'n rhaid i'w hamcanion fod yn rhan o bolisi prif ffrwd yn ogystal.

Nodir ym mharagraff 5.6.2 bod angen i sefydliadau ddilyn diffiniad Llywodraeth Cymru o brif ffrydio'r Gymraeg. Awgrymwn fod llawer o waith gan y Llywodraeth ei hun i'w wneud yn hynny o beth. Mae Mesur Iechyd Meddwl 2010 yn enghraifft o ddeddfwriaeth berthnasol y dylai'r Gymraeg fod wedi bod yn rhan ohono heb os nac oni bai, er teg nodi mai Llywodraeth flaenorol Cymru'n Un oedd yn gyfrifol am y Mesur hwn a'r methiant i gynnwys y Gymraeg fel elfen ohono. Fodd bynnag, mae'n amlygu'r angen i edrych yn fanwl ar brif ffrydio'r Gymraeg ym mholisi'r Llywodraeth yn gyffredinol, ac ym meysydd iechyd a gofal yn benodol. I ba raddau y bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol newydd y Llywodraeth, er enghraifft, yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth yn y Strategaeth hon? A fydd y Gymraeg yn ganolog i'r Bil?

### Cynnig rhagweithiol

Sonnir am egwyddor y "cynnig rhagweithiol" ym mharagraff 6.2.1. Mae symud tuag at gynnig rhagweithiol yn gam hanfodol bwysig. Mae'n golygu y bydd defnyddwyr yn cael cynnig defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddechrau defnyddio'r gwasanaeth, yn hytrach na bod tybiaeth dros ddefnyddio'r Saesneg a bod rhaid i ddefnyddiwr ofyn am wasanaeth Cymraeg; dylai'r dewis hwnnw wedyn gael ei barchu drwy gydol y gwasanaeth. Gall pawb wneud y cynnig hwnnw wrth gwrs, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Nid yw'n amlwg i ni bod yr enghraifft a roddir yn y paragraff, o newid rota staffio, yn gyfystyr â'r cynnig rhagweithiol. Mae addasu rota staffio er mwyn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael bob amser yn hanfodol ac yn rhywbeth i'w groesawu wrth gwrs, ac mae'n sicr bod hynny'n hwyluso'r broses o wneud cynnig rhagweithiol, ond dylid gwneud yn amlwg yn yr enghraifft, rhag peri dryswch, bod y rota staffio yn cael ei haddasu a bod cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud i bob claf.

### Grwpiau blaenoriaeth

Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at grwpiau blaenoriaeth y mae'n arbennig o bwysig eu bod yn cael gwasanaethau yn Gymraeg, sef plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anabledau dysgu, a phobl ag anhwylderau iechyd meddwl. Derbynnir bod y grwpiau hyn o bobl yn arbennig o fregus a bod angen ymdrechion arbennig i sicrhau gwasanaethau Cymraeg cyflawn i'r bobl hyn. Wedi dweud hynny, gall pob grŵp ddioddef o afiechydon sy'n eu gwneud yn arbennig o fregus - er enghraifft strôc, clefyd Alzheimer - ac fel mae'r ddogfen ei hun yn ei gydnabod, rydym i gyd yn fregus wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid gofalu felly bod gwasanaethau cyflawn drwy'r Gymraeg yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau hyn ar gyfer pob grŵp o'r boblogaeth, ac mae'n hanfodol sicrhau nad yw canolbwyntio ar rai carfanau yn golygu colli golwg ar bobl eraill, gan fod pawb yng Nghymru â hawl i wasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg.

## Gofal sylfaenol

Wrth ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd, ni fydd llawer ohonom yn gorfod mynd i'r ysbyty yn aml iawn. Mae ymweliadau â meddyg teulu yn llawer mwy cyffredin. Yn wyneb hynny, mae'r un cyfeiriad at ofal sylfaenol ym mharagraff 5.4.6 y Strategaeth (ac adran 1.3 yn y cynllun gweithredu) yn esgeulustod mawr:

*5.4.6 Mae'r broses o gaffael gwasanaethau gofal sylfaenol gryn dipyn yn wahanol, ac yn aml cañt eu cytuno ar lefel y DU. Er mwyn ceisio diwallu'r angen am wasanaethau gofal sylfaenol yn y Gymraeg, mae rhai byrddau iechyd wedi ychwanegu rhai amodau lleol i'r cytundebau cenedlaethol yma.*

Nid yw'r Strategaeth yn esbonio i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r mater hwn; a fu trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Dyma faes lle gall Llywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth mawr ar lefel genedlaethol. Mae'r ail frawddeg yn cyfeirio at rai camau gan rai byrddau iechyd, ond nid oes camau gweithredu sylweddol yn unman yn y Strategaeth o ran mynd i'r afael â phroblemau'r Gymraeg ym maes gofal sylfaenol.

Nid yw'r Strategaeth fel y mae yn rhoi dim math o sicrwydd na threfniadaeth o ran gwella gwasanaethau gan feddygon teulu, deintyddion ac ati yn y dyfodol. Mae gofal sylfaenol yn faes cwbl greiddiol ac nid yw'r diffyg sylw sydd iddo yn y Strategaeth o gymharu â gwasanaethau eraill yn adlewyrchu'n agos at faint y cyswllt sydd rhwng y cyhoedd â meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac ati. Teimlwn fod hyn yn un o brif wendidau'r Strategaeth fel y mae, gan mai prin y mae'n ymdrin â'r maes hwn o gwbl. Mae angen llawer mwy o ystyriaeth o'r mater hwn felly cyn paratoi strategaeth derfynol, er mwyn cynnwys ymrwymadau pendant yn y Strategaeth sy'n mynd i'r afael â'r diffygion difrifol presennol ym maes gofal sylfaenol.

## Addysg

Croesawn y cyfeiriadau at bwysigrwydd addysg yn y Strategaeth sydd i'w gweld yn adran 5.5. Mae'n bwysig ystyried ble yn y gyfundrefn addysg i ganolbwyntio ymdrechion, ac felly mae'n dda gweld ystyriaeth i hynny, gan edrych yn arbennig ar hyfforddiant penodol mae gweithwyr iechyd, gofal a chymdeithasol yn ei gael. Credwn ei bod yn bwysig yn hynny o beth bod sgiliau dwyieithog yn cael eu meithrin a'u cydnabod fel rhan o gymwysterau proffesiynol gweithwyr yn y meysydd perthnasol, ac fe ddylai'r Strategaeth fynd i'r afael â hynny.

Mae'n bwysig cofio hefyd bod llawer o weithwyr yn y meysydd hyn heb gael hyfforddiant penodol nac addysg i lefel addysg uwch, er enghraifft gweithwyr gofal yn y cartref i enwi un maes amlwg. Mae angen ystyried felly sut i fynd i'r afael â hynny yng nghyd-destun y drafodaeth yn adran 5.5.

## Cynnwys pobl Cymru/parhau trafodaeth ddemocrataidd

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cael barn pobl Cymru, a siaradwyr Cymraeg yn benodol,

wrth greu a gweithredu'r Strategaeth hon. Mae hynny'n cynnwys grwpiau sy'n siarad ar ran cleifion ac ar ran siaradwyr Cymraeg. Ni chawsom fel Cymdeithas ein gwahodd i un o'r digwyddiadau ymgynghori a fu yn ddiweddar, ac nid oeddem yn ymwybodol ohonynt yn anffodus. Byddem wedi croesawu cyfle i fynychu ac i annog ein haelodau i fynd i un o'r digwyddiadau. Wrth gwrs, croesawn y ffaith bod profiadau defnyddwyr yn cael sylw blaenllaw yn y Strategaeth fel y mae ar hyn o bryd.

Credwn fod mewnbwn pobl Cymru yn bwysig o ran monitro cynnydd y Strategaeth yn benodol. Rydym o'r farn y byddai rhyw fecanwaith ar gyfer cael mewnbwn defnyddwyr Cymraeg yn benodol yn fuddiol tu hwnt o ran gwerthuso'r Strategaeth. Byddem hefyd yn barod i gyfrannu yn hynny o beth, ac yn barod i roi tystiolaeth bellach i'r Llywodraeth, ar lafar neu ar bapur, wrth i chi baratoi'r Strategaeth derfynol, pe bai hynny o fudd.

Yn ogystal â safbwyntiau y cyhoedd yng Nghymru, credwn ei bod yn bwysig bod ymarferwyr Cymraeg yn gallu dod at ei gilydd i rannu a datblygu arfer da. Credwn y dylid sefydlu fforymau proffesiynol at y diben hwnnw o dan y cyrff proffesiynol perthnasol (e.e. Cyngor Gofal Cymru) er mwyn hwyluso'r broses hon, ac fe ddylid rhoi camau gweithredu yn hynny o beth yn y Strategaeth hon.

## Casgliad

Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion na ellir yn rhesymol anghytuno â nhw er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r diffygion sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran y Gymraeg ym maes iechyd, gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Mae bwriad y Llywodraeth yn hynny o beth yn glodwiw, ac mae'r weledigaeth ar gychwyn y Strategaeth, ar y cyfan, yn uchelgeisiol.

Fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio mor annigonol yw'r sefyllfa ar hyn o bryd: yn y rhan fwyaf o Gymru, nid oes fawr ddim darpariaeth yn Gymraeg fel mater o drefn ym maes gofal ac iechyd; damwain a hap yw unrhyw ddarpariaeth sydd ar gael. Mae maint y dasg o fynd i'r afael â'r sefyllfa, felly, yn enfawr, ac angen buddsoddiad amser ac arian i newid holl ethos y gwasanaethau dan sylw. Ein prif bryder, fel y nodwyd eisoes, yw bod y cynlluniau gweithredu yn anghyflawn ac felly yn syrthio'n brin o'r weledigaeth sydd yn y Strategaeth ei hun. Mae perygl bod y Llywodraeth yn ceisio codi tŷ ar dywod. Nid ydym yn credu bod modd i'r Strategaeth lwyddo heb newidiadau sylweddol i'r cynlluniau gweithredu.

Un pwynt pwysig yn hyn o beth yw sut yn union y caiff y Strategaeth gyfan ei monitro; pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn digwydd a rheoleiddio'r holl broses? Beth fydd y meini prawf ar gyfer llwyddiant y Strategaeth? Yn ychwanegol at gynnydd y Strategaeth yn benodol, mae'n bwysig bod darpariaeth Gymraeg y gwasanaethau hyn yn cael eu harolygu'n gyson ar lefel fwy cyffredinol, a bod y cyrff arolygu perthnasol yn cynnal ymchwiliadau statudol cyson i natur y ddarpariaeth Gymraeg. Credwn y dylai'r Strategaeth hon amlinellu camau tuag at sicrhau bod hynny'n digwydd.

Fel y nodwyd, un o brif wendidau'r Strategaeth o ran iechyd yn benodol yw'r diffyg sylw i ofal sylfaenol. Mae'n hanfodol cywiro'r diffyg cydbwysedd hwn yn y Strategaeth. Bydd mynd i'r afael â gofal sylfaenol yn her, wrth gwrs, ond o ystyried cyswllt pobl Cymru â'r gwasanaethau hynny, mae'n hanfodol bod gwaith ar unioni'r diffygion yn dechrau yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.



Un o elfennau pwysicaf oll y Strategaeth yw capasiti adnoddau dynol digonol i gynnig darpariaeth ddwyieithog, ac yn y cynlluniau gweithredu y mae sicrhau hynny. Mae angen gosod targedau o fewn amserlen bendant yn y cynlluniau hyn i adeiladu gweithluoedd iechyd a gofal sydd â chapasiti digonol, a hynny drwy hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle, recriwtio bwriadus a chynllunio strategol, gan adeiladu ar hynny'n barhaus.

Fel y nodwyd felly, croesawn ddymuniad y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater dyrys hwn, ond rhaid sylweddoli hefyd beth yw maint y dasg sydd o'n blaenau. Nid yw'r awgrym y bydd modd gweithredu'r Strategaeth heb adnoddau ychwanegol yn gwneud cyfiawnder â hynny, yn ein barn ni. Yn un peth, fel y nodwyd, bydd buddsoddi helaeth yn y gweithlu yn gwbl hanfodol, o ran creu newid agwedd ac ethos, a hefyd yn hanfodol o ran sgiliau a hyder y gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg, a dylai'r cynlluniau gweithredu adlewyrchu hynny. Yn fwy na hynny, mae angen cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n fwy uchelgeisiol a mwy pellgyrhaeddol. Mae gormod o fylchau ar hyn o bryd, ac er bod llawer i'w ganmol o ran gonestrwydd y Llywodraeth am y sefyllfa bresennol, a'i dymuniad i newid hynny, mae perygl i'r Strategaeth hon foddi wrth y lan oherwydd prinder targedau uchelgeisiol a phendant - oherwydd diffygion y cynlluniau gweithredu. Yn sicr mae'n dweud llawer o'r pethau cywir, ond fel mae teitl y Strategaeth ei hun yn ei awgrymu, mae angen mwy na geiriau.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Ebrill 2012